Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Adroddiad Blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru

Mawrth 2022

1. Cyflwyniad

1. Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei greu gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013, gan uno tri chorff: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ymgorfforodd hefyd nifer o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac, o 1 Ebrill 2016, swyddogaethau'r tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

2. Yn ogystal ag ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ynghylch adnoddau naturiol. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd (Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') ar hyn o bryd), ac yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau perthnasol y Senedd. Mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn briodol ac yn effeithiol.

3. Ar 20 Ionawr 2022, ymddangosodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, gerbron y Pwyllgor am sesiwn graffu. Rydym yn ddiolchgar i gynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru am eu cydweithrediad. Yr adroddiad hwn ar waith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r cyntaf i gael ei gynhyrchu yn ystod y Chweched Senedd. Byddwn yn parhau â'r gwaith craffu blynyddol hwn yn ystod tymor y Senedd hon.

2. Llywodraethiant

Llythyr cylch gwaith

4. Roedd llythyr cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020-21 gan Lywodraeth Cymru wedi dod i law ym mis Mai 2020. Roedd yn pennu nifer o amcanion y cytunwyd i'w cyflawni hyd at ddiwedd tymor y llywodraeth ar y pryd. Ar adeg sesiwn graffu'r Pwyllgor, nid oedd unrhyw lythyr cylch gwaith diweddar wedi'i gyhoeddi. Pan holwyd Clare Pillman, Prif Weithredwr, ynghylch hyn, dywedodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth o fewn y mis nesaf. Byddai'n cyd-fynd â chyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru a byddai'n cael ei lywio gan yr adolygiad sylfaenol, y rhaglen lywodraethu, y cytundeb cydweithredu, a'r holl bethau hynny'n dod at ei gilydd. Dywedodd Clare Pillman ei bod yn disgwyl i lythyr cylch gorchwyl 'tymor y Llywodraeth' nodi fframwaith cyffredinol ac y byddai llythyrau cylch gwaith blynyddol, a fyddai'n cynnwys mwy o fanylion, yn parhau i fod yn angenrheidiol.

5. Dywedodd Clare Pillman fod llythyr cylch gwaith rheoli perygl llifogydd penodol, a ddaeth i law ddiwedd mis Rhagfyr 2021, wedi galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i symud ymlaen â gwaith pwysig i ddiogelu cymunedau, i leihau risg a gwella amddiffynfeydd. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd er ei bod yn credu nad oedd angen llythyrau cylch gwaith ar gyfer pob maes polisi penodol, y byddai'n ddefnyddiol pe gellid sicrhau'r un lefel o fanylder yn y llythyr cylch gwaith blynyddol ag sydd yn y llythyr cylch gwaith rheoli perygl llifogydd.

Cynllun corfforaethol

6. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei Gynllun Corfforaethol, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2022. Nododd ei fesurau perfformiad tymor canolig yn erbyn saith Nod Llesiant[1]. Pan holwyd Clare Pillman pryd y byddai fersiwn newydd o'r cynllun corfforaethol ar gael, eglurodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ohirio'r fersiwn nesaf o'r Cynllun Corfforaethol. Dywedodd fod yr oedi yn angenrheidiol i alluogi Llywodraeth newydd i ddod i mewn, i'r rhaglen lywodraethu gael ei chyhoeddi, ac wrth gwrs,

[1] Sef: Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru; Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig; Gwella gwytnwch ac ansawdd ein hecosystemau; Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd; Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus; Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol, defnyddio adnoddau naturiol heb eu niweidio; a Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf.

ers hynny, cafwyd y cytundeb cydweithredu hefyd, ac i'r rhain gael eu hadlewyrchu'n briodol yn y Cynllun.

7. Dywedodd Clare Pillman fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau proses adolygiad sylfaenol y byddai angen ei hadlewyrchu yn y cynllun corfforaethol hefyd ac eglurodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn y bumed flwyddyn o'r amcanion llesiant, ac felly bydd adolygiad ohonynt maes o law. Dywedodd fod oedi o flwyddyn wedi teimlo'n briodol oherwydd y rhesymau hyn. Dywedodd ei bod yn disgwyl i'r cynllun corfforaethol nesaf gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023, yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Cynllun busnes

8. Mae Cynllun Busnes diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwmpasu'r cyfnod 2020-21. Mae'n cynnwys pum blaenoriaeth strategol[2] a fydd, yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cyfrannu at y broses o gyflawni ei Amcanion Llesiant a chyflawni camau gweithredu ei Gynllun Corfforaethol. Ar adeg sesiwn graffu'r Pwyllgor, nid oedd unrhyw gynllun busnes wedi'i gyhoeddi ar gyfer 2021-22.

9. Pan holwyd Clare Pillman ynghylch y flaenoriaeth strategol o gefnogi cymunedau Cymru, dywedodd fod hwn yn faes allweddol a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi buddsoddi yn sgiliau a galluoedd ei staff o ran ymgysylltu â chymunedau. Roedd hyn wedi cynnwys gwella ei bresenoldeb wrth wynebu cwsmeriaid o ran y cyngor a roddir a'r wefan, ac ati. Eglurodd y bu cynnydd mewn cydweithio ag unigolion a sefydliadau sydd eisoes yn weithgar mewn cymunedau. Dywedodd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu yn yr iteriad nesaf o'r cynllun corfforaethol.

10. Ychwanegodd Syr David Henshaw, Cadeirydd, y bu ymdrech ymwybodol i wneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n edrych tuag allan. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allanol yn hytrach na bod y cyfan yn rheolaeth o'r brig i lawr gan Gaerdydd, a fydd o bosibl yn ffordd o ddisgrifio'r hyn a oedd yn digwydd yn y gorffennol. Dywedodd hefyd y byddai hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru.

[2] Sef: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd; Ymateb i'r argyfwng natur; Datblygu a defnyddio ein tystiolaeth gyda phartneriaid i eirioli a chyflawni rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol; Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n cefnogi cymunedau Cymru; ac Ymateb i'r pandemig COVID-19 a'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan achub ar gyfleoedd i gael adferiad gwyrdd.

Mesurau perfformiad

11. Mae 'dangosfwrdd' Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru yn olrhain cynnydd o'i gymharu â nifer o fesurau dan bob un o'r saith Nod Llesiant, gan ddefnyddio system goleuadau traffig. Dangosodd yr adroddiad ar berfformiad 2020/21 o'r 35 o fesurau, fod 21 yn 'wyrdd', bod 12 yn 'oren' a bod dau yn 'goch'. Y ddau fesur coch yw: Cyflawni'r ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â dŵr sy'n weddill a datblygu Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'u diweddaru; a Gwneud taliadau ar amser.

12. Pan holwyd Clare Pillman ynghylch y mesurau coch mewn perthynas â llygredd dŵr, dywedodd eu bod yn canolbwyntio'n llwyr ar hyn - y bwrdd, y tîm gweithredol a'r staff. Dywedodd ei bod wedi bod yn flwyddyn o ffocws gwirioneddol yn y maes hwn, a'u bod yn gwneud cynnydd da. Ychwanegodd ei bod o'r farn bod newid wedi bod eleni o ran ymwybyddiaeth a diddordeb y cyhoedd, o ran y ffocws y mae'r cwmnïau dŵr yn ei roi ar waith nawr, i'r ymdeimlad yng Nghymru nad yw hyn yn rhywbeth y gall un parti yn gwneud newid ei ddatrys.

13. Eglurodd Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod adnoddau wedi'u hailgyfeirio i ganolbwyntio ar y gwaith gorlif stormydd, sydd wedi bod o ddiddordeb a phryder mawr i'r cyhoedd, a hefyd y gwaith ffosffad mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac yna'r gwaith dilynol i hynny, sef cyflwr yr holl afonydd ledled Cymru a'r ymchwiliadau a wneir yno. Dywedodd:

> *"what you will be seeing towards the end of the month…is a route-map to better water quality in Wales, coming together from NRW and also including the water companies, Ofwat. We've involved the Consumer Council for Water in those discussions, and also Afonydd Cymru, and we're talking to our wider stakeholders to bring those in."*

14. Pwysleisiodd Syr David Henshaw fod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried sut olwg sydd ar reoleiddio da a sut y gall Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn rheolydd mwy effeithiol. Eglurodd y gellir naill ai parhau i wirio, archwilio, ac erlyn yn unig, ond y gallai hynny yn y pen draw fod yn fater o dicio'r blwch a methu'r pwynt. Credai fod un agwedd ar reoleiddio da yn golygu gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid eraill.

Adroddiad blynyddol a chyfrifon

15. Adroddiad blynyddol a chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020-21 oedd y rhai cyntaf ers 2015-16 na chawsant eu cymhwyso. Deilliodd cymwysterau blaenorol o ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy a gyflwynwyd yng Nghynllun Marchnata Pren 2017-2022.

Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru â'r rhan fwyaf o gontractau gwerthu sefydlog a mwy i ben yn gynnar yn ystod 2019-20.

16. Yn adroddiad atebolrwydd 2020-21, awgrymodd tîm archwilio mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru y bu rhywfaint o gynnydd ar gontractau gwerthu pren, a nododd fod problemau yn parhau o ran cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth.

COVID-19:

17. Yn adroddiad ar berfformiad 2020-21 Cyfoeth Naturiol Cymru, dywedodd Clare Pillman fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi canolbwyntio o ddechrau'r pandemig ar gefnogi ei bartneriaid ac eraill sy'n ymdrin â'r argyfwng. Nododd adroddiad atebolrwydd 2020-21 Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd absenoldeb staff o ganlyniad i COVID-19 yn broblem sylweddol. Dywed fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cynlluniau parhad ar waith i sicrhau bod modd cyflenwi ar gyfer unigolion allweddol neu i ymdrin â nifer o absenoldebau.

Ein barn ni

Mae'n teimlo weithiau bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod mewn cyflwr cyson o newid ers ei greu yn 2013 pan ddaeth tri sefydliad gwahanol â chyfrifoldebau gwahanol iawn at ei gilydd. Mae'r daith i'r pwynt hwn wedi bod yn llawn anhawster a chryn ddadlau.

Rhwng ei greu a 2020, roedd cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i lleihau gan dros draean. Gan fod ei gyllideb wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi pentyrru cyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol ar y sefydliad.

Nid yw'n afresymol gofyn a yw'r heriau hyn wedi bod yn rhwystr i Cyfoeth Naturiol Cymru rhag arfer ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Efallai y bydd yr adolygiad sylfaenol o ddyletswyddau a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfle i roi diwedd ar y cyfnod anhrefnus hwn. Credwn fod gwir angen yr adolygiad hwn. Roedd yn rhywbeth y galwodd rhanddeiliaid amdano yn ystod ein hymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd. Yr hyn a oedd yn amlwg o'r dystiolaeth honno oedd y risg bod rhanddeiliaid yn colli hyder yng ngallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Dylem bwysleisio nad beirniadaeth o staff Cyfoeth Naturiol Cymru oedd hon, ond cwestiwn o ddiffyg capasiti ac adnoddau.

Unwaith y bydd yr adolygiad sylfaenol wedi'i gwblhau, rydym yn disgwyl y bydd cyfnod o sefydlogrwydd y mae mawr ei angen, lle gall Cyfoeth Naturiol Cymru ganolbwyntio ar fwrw ymlaen â'r gwaith. Rhaid i Lywodraeth Cymru ac uwch staff Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau nad

yw'r adolygiad sylfaenol yn defnyddio gormod o gapasiti'r sefydliad. Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog am yr amserlen ar gyfer yr adolygiad sylfaenol.

O ran y llythyr Cylch Gwaith, rydym yn croesawu cyflwyniad y llythyr cylch gwaith 'tymor llawn y llywodraeth'. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru at ddiben cynllunio yn y tymor canolig. Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru am yr angen i gael rhagor o fanylion mewn llythyrau cylch gwaith blynyddol ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried hynny.

Rydym yn deall y rhesymau dros yr oedi gyda'r iteriadau nesaf o'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Busnes, yn enwedig yng nghyd-destun yr adolygiad sylfaenol. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn pennu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r ddwy ddogfen cyn gynted ag y daw amserlen yr adolygiad sylfaenol yn glir.

Nodwn fod Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys mesurau perfformiad "coch" mewn perthynas ag ymchwiliadau'n ymwneud â dŵr. O ystyried diddordeb y cyhoedd yng nghyflwr ein hafonydd, a'r sicrwydd gan gynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd, disgwyliwn weld cynnydd sylweddol yn y maes hwn dros y flwyddyn nesaf. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar gynnydd maes o law.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog nodi'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad sylfaenol o Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad cychwynnol i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd yr adolygiad ddim hwyrach na thri mis ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad hwn.

Argymhelliad 2. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi ei gynllun corfforaethol a'i gynllun busnes, yn sgil cael rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer yr adolygiad sylfaenol.

Argymhelliad 3. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mesurau perfformiad "coch" yn ei Gynllun Busnes presennol heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad hwn.

3. Cyllideb

Incwm a gwariant

18. Cyfanswm incwm Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020-21 oedd £78 miliwn. At hynny, darparodd Llywodraeth Cymru werth £105 miliwn mewn Cymorth Grant a grantiau eraill, a dyrannwyd £35 miliwn ohono i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Gwariwyd cyfanswm cyllideb 2020-21 ar gyfer rheoli perygl llifogydd, yn ogystal â chyllid ychwanegol a gafwyd, i ddiogelu 720 o eiddo eraill.

19. Mae incwm hefyd yn cael ei ennill drwy weithgareddau masnachol a thaliadau rheoleiddio (i'w wario ar y diben rheoleiddio). Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod incwm taliadau yn weddol sefydlog, ond bod incwm masnachol yn llai rhagweladwy gan ei fod yn sensitif iawn i newidiadau i'r gyfradd gyfnewid, sy'n effeithio ar brisiau pren.

20. Cyfanswm gwariant Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn oedd £225 miliwn, sef cynnydd o £207 miliwn y flwyddyn flaenorol. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod nifer o resymau dros y cynnydd hwn, gan gynnwys cynnydd mewn costau staff ar ôl cwblhau gwaith ad-drefnu'r sefydliad.

21. Yn ystod gwaith craffu ar gyllideb 2021-22, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd fod cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigonol ar gyfer ei gyfrifoldebau statudol. Fodd bynnag, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru dro ar ôl tro fod cyllideb sy'n lleihau yn effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau ac ymgymryd â dyletswyddau newydd.

Adolygiad sylfaenol

22. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi dweud wrth y Pwyllgor fod adolygiad yn cael ei gynnal i archwilio dyraniad adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Eglurodd y Gweinidog fod hwn yn adolygiad 'sylfaenol' a ddeilliodd o'r gydnabyddiaeth y bu rhywfaint o 'ymlediad cenhadaeth', a bod angen eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar y cyllid sylfaenol y mae'n ei dderbyn. Dywedodd y Gweinidog fod cyllid ychwanegol ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud gwaith yn ychwanegol at yr hyn a ariennir gan y cyllid sylfaenol. Er enghraifft, roedd cyllid yn ystod y flwyddyn wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith ar lifogydd.

23. Nododd Clare Pillman fod grant mewn cymorth Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gostwng 30 y cant mewn termau real ers i'r sefydliad gael ei greu. Ar yr un pryd, roedd Cyfoeth Naturiol

Cymru wedi derbyn cyfrifoldebau newydd ac ychwanegol. Croesawodd Clare Pillman yr adolygiad, gan ddweud bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru dros 500 o gyfrifoldebau statudol. Eglurodd y bydd rhai o'r rheini'n eithaf bach, ac y bydd rhai ohonynt yn fawr ac yn ddrud i'w cyflawni. Ychwanegodd y byddai angen i'r adolygiad fynd i'r afael â chwestiynau am lefel y gwasanaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r costau sy'n deillio o hynny. Byddai'r adolygiad hefyd yn helpu i egluro meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

24. Yn ystod ymddangosiad gerbron Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud na fyddai'n gallu cario arian o un flwyddyn i'r llall o ddiwedd 2020-21 ymlaen. Dywedodd Clare Pillman fod hyn yn rhan o brosiect cydweddu gan Lywodraeth Cymru ac y gallai arwain at fwlch mewn cyllid. Eglurodd Clare Pillman fod hyn yn golygu na all Cyfoeth Naturiol Cymru gario'r arian a enillir ymlaen, yn enwedig o bren, o un flwyddyn i'r llall. Aeth ymlaen i egluro yn hanesyddol, fod Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi elwa weithiau ar Lywodraeth Cymru yn rhoi arian iddo at ddibenion penodol y gellir wedyn ei gario drosodd. Roedd rhwng £10 miliwn a £15 miliwn y flwyddyn yn dod o fewn hynny. Dywedodd ei bod yn disgwyl y byddai'r problemau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yn cael eu lleihau pe bai'r adolygiad sylfaenol yn arwain at ddyrannu cyllideb ddigonol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei gyfrifoldebau craidd. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"The work that we have been doing is really about saying that we need to get our budget, as the Minister said this morning, onto a stable footing that's not subject to, 'Oh, well, here's a bit of extra money to help you out on this; here's a bit to help you out on that'—really understanding what the core budget buys, what the priorities are and to be able to deliver against them."*

25. Croesawodd Clare Pillman y gyllideb tair blynedd ddangosol, gan ddweud y byddai hyn yn gwella gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gynllunio. Eglurodd fod:

> *"some of the projects we've had—really good ones—we've had that sort of moment every December-January when we've been going, 'Well, do you actually have to lay the staff off or stop the work?' because we don't know whether it's funded from the following April".*

Gofynion o ran staffio

26. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi amcangyfrif y bydd gorfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn gofyn am 60 o staff ychwanegol i ddarparu'r cynnyrch hyfyw gofynnol, ond ymhell dros 200 i gyflawni'r rôl lawn. Yn yr un modd, canfu adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o lifogydd mis Chwefror 2020 y bydd angen tua 60-70 aelod

o staff arno ar ben y llinell sylfaen gyfredol i sicrhau gwelliannau hirdymor, cynaliadwy mewn gwasanaethau rheoli llifogydd.

27. Wrth graffu ar y gyllideb ddrafft, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y byddai gofynion staffio yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad sylfaenol. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"So, on your 60 extra staff, 200 extra staff, are they extra, or are they people who were previously looking at tree-planting schemes who can now be freed up to do something else? It's that kind of exercise, isn't it, that we're really looking at?"*

Ein barn ni

Amlygodd ein gwaith ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd bryder eang ymhlith rhanddeiliaid ynghylch gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am ei allu i fonitro a gorfodi cyfreithiau diogelu'r amgylchedd; ymateb i achosion o lygredd amgylcheddol a llifogydd; monitro ac asesu cyflwr safleoedd daearol a morol; a chefnogi defnydd tir a chynllunio morol.

Mae cyfrifoldebau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynyddu, yn fwyaf diweddar gyda chyfrifoldeb newydd dros orfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Rydym yn falch y bydd cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gynnwys o fewn cylch gorchwyl yr adolygiad sylfaenol. Credwn fod hyn yn gyfle y mae mawr ei angen i ailosod y trefniadau ariannu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, lle gofynnwyd iddo ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau yn erbyn cefndir o doriadau i'w gyllid. Disgwyliwn i'r adolygiad sylfaenol arwain at setliad ariannu sy'n adlewyrchu'n briodol gyfrifoldebau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru a'r tasgau y disgwylir iddo eu cyflawni.

Dylai'r adolygiad sylfaenol arwain at ddarlun cliriach o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno i Cyfoeth Naturiol Cymru eu harfer, a'r cyllid sydd ei angen i wneud hynny'n effeithiol. Rydym yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi croesawu symud oddi wrth gyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer tasgau a chyfrifoldebau ychwanegol. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid bod hyn wedi peri problemau i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cynllunio tymor byr a chanolig.

Nodwn hefyd y bydd trefniadau staffio yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r adolygiad sylfaenol. Rydym yn deall bod hyn yn rhan angenrheidiol o'r broses. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ailgynllunio'r sefydliad yn ddiweddar a arweiniodd at newidiadau staffio. Rydym yn pryderu y gallai cylch pellach o adolygiadau staffio, a'r ansicrwydd sy'n anochel yn deillio ohonynt, niweidio morâl staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymesur â'i rolau a'i gyfrifoldebau. Disgwyliwn weld cynnydd priodol yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn canlyniad yr adolygiad sylfaenol.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y trafodaethau y mae'n eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch sut y gallai ei fodel ariannu newid yn sgil yr adolygiad sylfaenol.

4. Gweithgarwch masnachol

28. Dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu Strategaeth Fasnachol newydd ym mis Ionawr 2020 y bwriadwyd ei chyhoeddi'n wreiddiol ym mis Gorffennaf 2020. Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfres o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth. Cyhoeddwyd y Strategaeth Fasnachol ym mis Ebrill 2021 ac mae'n darparu cyfres gyffredinol o ddyheadau, ffyrdd o weithio, ac yn amlinellu gwelliannau ar gyfer gweithgarwch masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru.

29. Wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2022-23, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y byddai'r adolygiad sylfaenol yn ystyried a oes angen newid y trefniadau presennol ar gyfer ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn cael incwm o werthu pren. Byddai'r adolygiad yn ystyried a oedd hon yn ffordd briodol o ariannu sefydliad yn y sector cyhoeddus, yn enwedig gan fod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru amsugno unrhyw risgiau sy'n deillio o amrywiadau yn y farchnad.

Gwerthu pren

30. Mae Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren 2021-2026 Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi ei ddull o gynaeafu a marchnata pren o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Cafodd datblygiad y cynllun ei lywio gan ymgynghoriadau cyhoeddus, a pholisïau coedwigaeth a choetiroedd Llywodraeth Cymru.

31. Nod y Cynllun yw gwella llywodraethu a chydymffurfiaeth gwerthu pren ac mae'n dwyn ynghyd ymrwymiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys:

- Cyflwyno dull 'Pobl, Planed a Ffyniant' o ymdrin â'r holl werthiannau pren. Mae hyn yn golygu y bydd penderfyniadau sy'n effeithio ar goetiroedd yn cael eu mesur gydag ystyriaethau economaidd ac amgylcheddol, ac yn ystyried anghenion y presennol a'r dyfodol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio cyflwyno cynllun peilot ar y cyd â diwydiant;
- Defnyddio hyd at 30 y cant o'r pren a gynhyrchir i archwilio dulliau gwerthu amgen, a allai gefnogi gweithgareddau cymunedol a gweithgareddau mentrau cymdeithasol eraill; a
- Dod o hyd i ffyrdd o gynyddu'r cyflenwad i sector tai Cymru a chefnogi economi gylchol Cymru, drwy weithio gyda'r sector coedwigaeth a phrosesu pren, a Llywodraeth Cymru.

32. Dywedodd Clare Pillman fod y flwyddyn gyntaf ers cyhoeddi'r Cynllun wedi bod yn ymwneud i raddau helaeth â rhoi'r blociau adeiladu yn eu lle yn fewnol, a sicrhau'r newid diwylliant hwnnw o fewn y sefydliad. Cyfeiriodd at yr egwyddor sylfaenol 'Pobl, Planed a Ffyniant' a phwysleisiodd pa mor arwyddocaol y gallai'r dull hwn fod o ran caffael a'r gadwyn gyflenwi, gan gofio bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru werth bron i £100 miliwn o gontractau.

33. Ym mis Mehefin 2021, cynhaliodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, ymarfer manwl i goed a phren. Allbwn y gwaith hwnnw oedd adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud y bydd y broses hon yn "fan cychwyn ar gyfer datblygu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren i Gymru", a fydd yn cynnwys "edrych ar rôl Cyfoeth Naturiol Cymru".

Ffermydd gwynt

34. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw tua £3 miliwn y flwyddyn ar gyfer costau rheoli a gweithredu ffermydd gwynt, ond yn dychwelyd £8 miliwn i Lywodraeth Cymru. Yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2021-22, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd y byddai'n edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r cyllid a ddychwelir ar gyfer yr agenda ynni a newid hinsawdd, a allai gynnwys dychwelyd rhywfaint i Cyfoeth Naturiol Cymru. Ym mis Mawrth 2021, dywedodd y Gweinidog ar y pryd fod trafodaethau'n mynd rhagddynt.

35. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried datblygu ffermydd gwynt ei hun, dywedodd Clare Pillman fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu

profiad yn y maes hwn, fodd bynnag, byddai angen edrych ar y sefyllfa o ran ariannu a byddai angen edrych ar sut y gellir cyflawni hyn. Ychwanegodd fod y materion hyn yn cael eu trafod ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod elw o ddatblygiadau o'r fath yn aros yng Nghymru ac o fudd i gymunedau lleol.

36. Dywedodd Clare Pillman ei bod yn cefnogi'r cynnig am gwmni ynni Cymreig a allai symud rhywfaint o hyn ymlaen a gwneud pethau ar raddfeydd gwahanol o bosibl, megis y pethau bach cymunedol, ond hefyd hyd at y datblygiadau mawr o 30-40 o dyrbinau sydd eu hangen os yw'r sefydliad am geisio bod yn hunangynhaliol o ran ynni adnewyddadwy dros y cyfnod nesaf.

Ein barn ni

Rydym yn nodi'r sylwadau gan y Dirprwy Weinidog y bydd trefniadau ar gyfer ymdrin ag incwm (neu, yn wir, colledion) sy'n deillio o weithgarwch masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn cylch gwaith yr adolygiad sylfaenol. Os gwneir penderfyniad i newid ei dull gweithredu, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei lleihau mewn ffordd sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog neu'r Dirprwy Weinidog ynghylch sut y gallai hyn weithio'n ymarferol a pha asesiad sydd wedi'i wneud o effaith penderfyniad o'r fath. Rydym yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren 2021-2026. Yn y cyfamser, mae'r Dirprwy Weinidog wedi comisiynu gwaith ymchwil manwl i bolisïau coedwigaeth, y mae'r adroddiad arno wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae sawl argymhelliad sy'n deillio o'r gwaith hwnnw yn effeithio ar Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan Cyfoeth Naturiol Cymru o'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei Gynllun ac i ba raddau y mae wedi newid o ganlyniad i'r gwaith ymchwil manwl.

Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am drafodaethau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o ddatblygu ffermydd gwynt ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhelliad 6. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru egluro sut mae gwaith ymchwil manwl y Dirprwy Weinidog ar bolisïau coedwigaeth wedi effeithio ar ei Gynllun Gwerthu a Marchnata Pren 2021-2026. Dylai nodi'r newidiadau penodol sydd wedi bod yn angenrheidiol i adlewyrchu canlyniadau'r gwaith ymchwil manwl.

Argymhelliad 7. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu ffermydd gwynt ar ei ystâd a'r trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru ynghylch bwrw ymlaen â rôl ddatblygu.

5. Materion penodol a godwyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

Digwyddiad llygredd Afon Llynfi

37. Mae Afon Llynfi yn is-afon i Afon Gwy ac yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig mewn Ardal Cadwraeth Arbennig. Ym mis Gorffennaf 2020, cafwyd digwyddiad llygredd ar yr afon a laddodd 45,000 o bysgod, a bywyd afon arall. Canfu ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn cwmni neu unigolyn ar gyfer y digwyddiad. Dyma'r trydydd digwyddiad llygredd ar Afon Llynfi ers 2016, a dim ond un ohonynt y llwyddodd Cyfoeth Naturiol Cymru i erlyn yn ei gylch.

38. Beirniadwyd Cyfoeth Naturiol Cymru am oedi 13 awr cyn mynd i'r lleoliad ar ôl i'r rhybudd gael ei seinio. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai'r rheswm dros yr oedi oedd bod swyddogion yn ymdrin â digwyddiadau llygredd eraill â blaenoriaeth uchel, a bod pryderon iechyd a diogelwch ar gyfer yr un swyddog a oedd ar gael. Pwysleisiodd Ann Weedy, Rheolwr Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru Canolbarth Cymru, anawsterau wrth nodi ffynhonnell y llygredd. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau a oedd yr oedi wedi arwain at golli tystiolaeth a allai fod wedi helpu i sicrhau erlyniad.

39. Disgrifiodd Clare Pillman y digwyddiad yn Llynfi fel un a gafodd effaith fawr ar Cyfoeth Naturiol Cymru – bod y lefel honno o lygredd, ac na lwyddwyd i weithredu yn ei erbyn. Ategodd Ceri Davies hyn, gan ddweud ei fod wedi bod yn hynod ofidus i staff.

40. Eglurodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymryd cyfres o gamau gweithredu oherwydd y digwyddiad. Dywedodd:

> *"We had a long consultation with our trade unions, and we're now consulting with our staff about contract changes and bringing more people onto our rotas so that we've got a bigger pool of people available to help us in all sorts of incidents—environmental, flooding, and also the ones on our land estate. That consultation is taking place right now, and we're hopeful that we'll be*

able to draw in more people onto our emergency response rotas so that we can respond."

41. Ychwanegodd fod dull arall yn ymwneud ag ystyried y defnydd o arloesedd a thechnoleg, synhwyro o bell, fel arf i fonitro digwyddiadau. Yn olaf, eglurodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried a fyddai'n gallu gweithio'n well gyda phartneriaid a allai fod wedi'u lleoli'n agosach, a allai wneud rhywfaint o waith cychwynnol a fyddai'n ddigon da i helpu i gyfyngu ar y difrod a hefyd y gwaith dilynol.

Dynodi Bryniau Clwyd yn Barc Cenedlaethol

42. Dywedodd Clare Pillman ei bod yn croesawu'r £3 miliwn ar gyfer dynodi Bryniau Clwyd yn ardal dyffryn Dyfrdwy yn barc cenedlaethol. Nododd y gallai hon fod yn broses hir iawn a dywedodd fod y dynodiad diweddaraf yn Lloegr wedi cymryd 10 mlynedd. Dywedodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio'n galed iawn gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar sut y gellir cael rhaglen sy'n mynd drwy'r holl gamau cywir o fewn tymor y Llywodraeth.

43. Eglurodd Ceri Davies mai'r hyn sydd wedi'i gostio yw'r hyn gwaith y credir y bydd ei angen i gael Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cam hwnnw lle gellir gwneud argymhelliad. Eglurodd y byddai asesiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru fel y gellir sicrhau y cedwir at yr amserlenni ac yr ymdrinnir â materion mor gyflym â phosibl.

Llygredd ffosfforws

44. Adroddwyd bod ceisiadau cynllunio wedi'u gohirio oherwydd targedau llygredd ffosfforws llymach mewn rhai ardaloedd o Gymru. Ym mis Medi 2021, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fod tua 500 o geisiadau cynllunio wedi'u gohirio, yn cynnwys 620 o unedau tai.

45. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiad yn adolygu cydymffurfiad afonydd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru yn erbyn targedau ffosfforws llymach. Dangosodd hyn, o'r naw afon mewn Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru, fod 61 y cant o'r cyrff dŵr (rhan o afon) a aseswyd wedi methu â chyrraedd y targed ffosfforws rhwng mis Ionawr 2017 a mis Rhagfyr 2019. Yn dilyn yr adroddiad, diweddarodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei gyngor i awdurdodau cynllunio, gan ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau mewn dalgylchoedd cyrff dŵr afonydd mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac is-afonydd nad ydynt yn rhai yn yr ardaloedd hynny sy'n llifo i mewn iddynt, asesu eu heffaith bosibl ar lefelau ffosfforws. Mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ddatblygiadau a allai gynyddu lefelau ffosfforws i benderfynu a fyddant yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardal Gwarchodaeth Arbennig yr afon.

46. Mae Datganiad Sefyllfa Cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi nad oes dim hyblygrwydd o fewn cyrff dŵr sy'n methu â chyrraedd y targed ffosffad, ac y bydd unrhyw gynnydd arall mewn ffosffad yn gwaethygu cyflwr yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig ymhellach. Lle cyfyngedig oedd gan gyrff dŵr a oedd yn bodloni'r safon ar gyfer ffosffad ychwanegol.

47. Ar gyfer datblygiadau tai sy'n gysylltiedig â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus presennol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori'r awdurdod cynllunio i geisio cadarnhad gan yr ymgymerwr carthffosiaeth o'r capasiti i drin ffosfforws ychwanegol o fewn terfynau'r drwydded ollwng bresennol. Os nad oes digon o gapasiti, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn debygol o ymateb i ymgynghoriad yr awdurdod cynllunio lleol i'r perwyl hwn.

48. Dywedodd Ceri Davies wrth y Pwyllgor fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, yn enwedig awdurdodau cynllunio, yn ardaloedd yr afonydd sydd o fewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yr effeithiwyd arnynt. Dywedodd:

> *"We all feel really uncomfortable about the fact that things are paused at the moment, but, as we said earlier, the important thing is that we couldn't carry on watching this further and further decline of the river quality, and we do need to look at things differently and look at catchments differently."*

49. Dywedodd Ceri Davies fod byrddau rheoli maetholion yn cael eu sefydlu ac y byddent yn fecanwaith allweddol i ddod â rhanddeiliaid ynghyd. Dywedodd:

> *"[The nutrient management boards]are looking at the catchment, they're looking at everyone who is caught up in the issue within the catchment, what the impact is on them and then what we can do collectively to ensure that we're moving the situation forward, and allowing us to move out of a situation where we're stopping all sorts of things from happening—for very good reason, but we need to get over that and we need to move on into a position where the right things are happening to remove the pollution from the system to allow for the development of affordable houses and those sorts of things."*

Adferiad gwyrdd

50. Yn 2020, arweiniodd Cyfoeth Naturiol Cymru dasglu Adferiad Gwyrdd i ddatblygu syniadau sy'n cysylltu gweithredu ar yr hinsawdd â chreu swyddi a thwf economaidd cynhwysol. Ym mis Rhagfyr 2020, nododd yr adroddiad *Adferiad Gwyrdd*: *Blaenoriaethau i'w gweithredu* ystod o gamau ymarferol i'w cymryd yn y tymor byr a chanolig. Dywedodd yr adroddiad y byddai aelodau'r tasglu yn parhau i gydweithio yn y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd.

Byddai'r Grŵp yn darparu cymorth uniongyrchol er mwyn helpu i yrru'r broses weithredu ar gyfer cynigion penodol yn ei blaen.

51. Dywedodd Syr David Henshaw wrth y Pwyllgor fod y Grŵp yn parhau i gyfarfod a'i fod yn y broses o lunio ei raglen waith nesaf. Dywedodd fod hyn yn effeithiol iawn wrth wneud i bethau ddigwydd ac mewn gwirionedd yn dysgu llawer iawn o wersi o rai o'r heriau sydd wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig.

52. Dywedodd fod y cynigion ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn cael eu llunio'n fanylach ac y byddai llythyr yn cael ei anfon yn fuan at Weinidogion yn ceisio eu cefnogaeth i ddatblygu'r syniad yn unol â'r hyn sydd wedi'i wneud yn Lloegr a'r Alban. Cytunodd Syr David i ddarparu diweddariad pellach i'r Pwyllgor yn ysgrifenedig.

Ein barn ni

Roeddem yn bryderus ynghylch y digwyddiad o lygredd ar afon Llynfi. Rydym yn nodi'r sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Byddem yn ddiolchgar o gael sicrwydd na fydd yr adolygiad sylfaenol a'r ystyriaethau staffio cysylltiedig yn arwain at wanhau capasiti ac, o ganlyniad i hynny, gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb i ddigwyddiadau fel y rhain yn y dyfodol. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y gwaith y bydd yn ei wneud i wella ei waith gyda phartneriaid lleol i wneud rhywfaint o waith ymchwilio cychwynnol. Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am hyn.

O ran llygredd ffosfforws, rydym yn croesawu'r sicrwydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru bod ymgynghoriad ystyrlon yn digwydd gyda rhanddeiliaid. Credwn fod angen datrys y sefyllfa cyn gynted â phosibl. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth maes o law am waith y byrddau rheoli maetholion.

Mae gennym ddiddordeb mewn monitro cynnydd 'adferiad gwyrdd' a byddwn yn gwneud darn o waith yn y tri mis nesaf ar hyn i asesu cynnydd yn erbyn argymhellion y Tasglu.

Argymhelliad 8. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd ar bob un o'r materion penodol a godwyd ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl ei gyhoeddi.